


2020/2021

Adroddiad Sefydliadol #7

Y cyfnod dan sylw: 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2020



Cynnwys

Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau

Diweddariad COVID-19	3
Uchafbwyntiau Sefydliadol, Gweithgaredd a Gweithredol	4

Effaith Sefydliadol

Y newid tymor hir y byddwn yn eu cynhyrchu i Gymru.....	7
---	---

Canlyniadau Sefydliadol

Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid.....	7
---	---

Allbynnau Sefydliadol

Sylw i darged sydd heb ei gyflawni *NEWYDD.....	8
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd	10
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu....	13

Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

Ymgysylltu â'n sector.....	20
----------------------------	----

Gwerthuso

Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu.....	21
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau	22

Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu**.
- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 2** (2020/2021) o 4 blynedd y Cynllun Strategol. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn, **mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol**.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwersi i'w dysgu o brosiectau. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen hon yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.
- Mae'r **adroddiad hwn yn cynnwys targedau wedi eu diweddarau ar gyfer 2020/2021**. Can ystyried ein cynnydd yn ystod blwyddyn 1 ochr yn ochr ag ansicrwydd ein rhaglen weithgaredd o ganlyniad i COVID-19, aethom ati i ganfod set newydd o Amcanion Sefydliadol ar gyfer blwyddyn 2. Yn ogystal, yn hytrach na chynnig cynnydd cronedig, yn yr adroddiad hwn rydym **yn hytrach wedi nodi eglurhad dros y targedau** sydd wedi eu haddasu.

Diweddariad COVID-19

Eleni, rydym wedi addasu ein rhaglenni a'n gweithgareddau'n gyflym er mwyn ailgyfeirio cyllid a chefnogaeth i helpu'r rheini sydd wedi wynebu'r caledi mwyaf.

Ar ddiwedd 2020, rydym yn cydnabod yr effaith mae COVID-19 wedi'i chael ar les ac iechyd meddwl pobl, gan gynnwys sut mae wedi gwneud llawer o bobl yn fwy unig ac ynysig. Mae profion clinigol wedi dangos bod darllen ac ysgrifennu creadigol yn fuddiol i'n lles, yn gorfforol ac yn feddyliol ill dau. Nawr, yn fwy nag erioed, dylid defnyddio llenyddiaeth i drin y cynnydd mawr mewn salwch corfforol a salwch meddwl hirdymor.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r uchafbwyntiau lles o dan ein colofn Cyfranogi wedi cynnwys cynnig dwy sesiwn flasu/ymgyngori fel rhan o brosiect **Geiriau ar Gynfas**. Prosiect yw hwn a fydd yn darparu gweithdai llenyddiaeth cyfranogol i bobl F/fyddar neu bobl anabl yng Nghymru. Rhyddhaodd y Children's Laureate for Wales gyfres o adnoddau a **gweithdai ysgrifennu dros y gaeaf**. Roedd y rhain am ddim ar-lein, ac yn ceisio helpu athrawon i ennyn diddordeb disgyblion drwy lenyddiaeth. Roedd ein gweithgareddau o dan y golofn Datblygu Awduron yn cynnwys galwad i'n **Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw**, a oedd yn gwahodd unigolion sydd wedi'u tangynrychioli i wneud cais am grant ariannol a chyfle i gael hyfforddiant dwys. At hynny, lansiwyd **Rhaglen Ddigidol Tŷ Newydd** ar gyfer 2021, gan roi cyfle i bobl arbrofi ag ysgrifennu am bris isel yn ystod y cyfnod clo. Ar ddiwedd y flwyddyn, dathlodd y Bardd Cenedlaethol arwyr COVID-10 yn ei **gerdd gomisiwn newydd** fel rhan o oriel luniau newydd ar-lein o arwyr cymunedol.

Yn y flwyddyn newydd, bydd mwy o bwyslais ar iechyd a lles ein cenedl wrth inni adolygu ein strategaeth i ganfod ble y gallwn gael yr effaith fwyaf ar elfennau hollbwysig yn adferiad Cymru. Bydd prosiectau'n cynnwys cynllun **mewn partneriaeth â Theatr Genedlaethol Cymru** i weithio gyda phobl sydd wedi goroesi cam-drin sylweddau yng Nghymru, **cynllun ariannu newydd ar gyfer digwyddiadau cymunedol** i wella lles pobl, a galwadau am **ymarferwyr i ddarparu gweithgareddau llenyddol** sydd wedi'u hysbrydoli gan athroniaeth a syniadau Raymond Williams. Rydym yma i wasanaethu awduron, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd creadigol Cymru, a byddwn yn parhau i ddatblygu ar y gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol i sicrhau bod ein modelau cyflawni yn rhoi cefnogaeth i'r rheini y mae angen cymorth fwyaf arnynt yn y cyfnod ansicr hwn.



Map Ymwelwyr yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Uchafbwyntiau

Sefydliadol

- Fersiwn cyhoeddus o'n **Hadroddiad Canol Tymor 2019/2020** wedi'i baratoi ac yn barod i'w lansio yn y flwyddyn newydd cyn ein hymgyrch ben-blwydd yn 10 oed.
- Hysbysebu cyfleoedd swyddi i **Weithwyr Creadigol Llawrydd** drwy broses recriwtio agored wedi'i seilio ar botensial, lle gofynnwyd i unigolion gyflwyno syniadau am weithgareddau perthnasol a dangos eu sgiliau gweithredol.

Gweithgareddau

- Trefnwyd ein her flynyddol gan gydweithfa ysgrifennu **Y Stamp**, a hynny drwy gadwyn greadigol farddonol o 24 artist dros 24 awr i ddatlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth.
- Lansiwyd ail rownd **Gwobr Rising Stars Cymru** i ganfod beirdd talentog o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n ysgrifennu i blant.
- Dewiswyd tri artist i gael cefnogaeth drwy **Lwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru** mewn partneriaeth ag Art Works Cymru.
- Lansiwyd y **Rhaglen Datblygu Cyffredinol i Awduron o Liw** i ddatblygu ysgrifennu'r ymgeiswyr llwyddiannus a'u gwybodaeth am y byd llenyddol a chyhoeddi.
- **Dathlodd Bardd Cenedlaethol Cymru arwyr COVID-19** yn ei gerdd gomisiwn newydd, a honno'n canolbwyntio ar bobl ledled Cymru sydd wedi cyfrannu at eu cymunedau er lles pobl eraill.
- Mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, lansiwyd prosiect **Geiriau ar Gyfnas** gyda dau artist i ddarparu'r prosiect a chysgodi.



Gweithredol

- Trefnwyd **Sesiwn Cynllunio Creadigol** ym mis Hydref yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol, gyda chyflwyniad gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Llenyddiaeth Cymru.
- Galwad am ymchwilwyr i'r farchnad i gael gwybodaeth am y byd gemau. Byddai hyn yn sail i ddatblygu ein prosiect **Tir a Llên Cymreig** a fydd yn addasu ac yn hyrwyddo mythau a chwedlau ar gyfer cynnwys gemau fideo.
- Darparu hyfforddiant mewnol i staff am **bolisïau newydd**, gan gynnwys Cynllun Datblygu'r Gymraeg a'r Polisi Amgylcheddol.
- **Cwblhawyd arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru**, sy'n cael ei gynnal bob chwe mis, a'i gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Oriel Ar-Lein o
Hyrwyddwyr
Cymunedol
-
Online Gallery of
Community
Champions



Dathlodd **Bardd Cenedlaethol Cymru** arwyr COVID-19
mewn cerdd gomisiwn newydd.



Parhaodd y **Children's Laureate Wales** i annog pobl i
gyfranogi mewn llenyddiaeth drwy weithdai ysgrifennu.



Darparwyd sesiynau blasu i awduron ac artistiaid
B/byddar drwy brosiect **Geiriau ar Gyfnas**.



ArtWorks
Cymru

Mewn partneriaeth â **Celfyddydau Anabledd Cymru**,
gwahoddwyd pobl i fynegi diddordeb ym mhrosiectau
cyfranogol **Geiriau ar Gyfnas**.

Professional Development Programme for Writers of Colour

Deadline: 4 December

→ literaturewales.org

Lansiwyd **Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o
Liw**. Cafwyd 59 o geisiadau.



Dechreuwyd prosiect **Tir a Llên Cymreig** drwy gynnal
ymchwil craidd i'r gynulleidfa darged ym maes gemau
cyfrifiadurol.

24:24

Cafodd **Her 100 Cerdd** ei threfnu ar wedd fymryn yn
wahanol gan gydweithfa 'Y Stamp, gyda her i 24 awdur
gyfansoddi 24 darn dros 24 awr.



Lansiwyd **Gwobr Rising Stars 2021** gyda'r nod o ganfod
mwy o feirdd o liw sy'n ysgrifennu i blant.

**BARD
PLANT
CYMRU** 20

Dathlodd cynllun **Bardd Plant Cymru** ei 20fed penblwydd
gydag wythnos o gynnwys digidol cyffrous i blant.

Rydym wedi dweud y byddwn yn cryfhau ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru.

Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu a chefnogi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol, hwyluso comisiynau llenyddol, a datblygu cyfleoedd gan roi cydnabyddiaeth ehangach i'n hawduron.

Ers mis Ebrill 2019...

422

o awduron profiadol wedi bod yn rhan o brosiectau proffil uchel

112

o gomisiynau wedi eu rhoi i awduron profiadol drwy ein hymyriadau ni

78

o egin awduron wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel

33

o brosiectau partneriaeth a chyfnewid drwy gydweithio neu hwyluso wedi eu darparu y tu allan i Gymru.

Ffigyrau o 1 Ebrill 2019 – 31 Rhagfyr 2020



Uchafbwynt: Diwylliant Llenyddol Cymru

Ar adeg pan mae cyfyngiadau ar allu unigolion, grwpiau a chymunedau i ymwneud â'i gilydd, rydym wedi parhau i feithrin diwylliant llenyddol i Gymru sy'n apelio at amrywiaeth o awduron, waeth beth yw eu cefndir. I sicrhau bod modd i'n hawduron, darllenwyr a chynulleidfaoedd creadigol barhau i ddefnyddio cynnwys artistig ac ymwneud â gweithgareddau sy'n dangos ein llenyddiaeth ar ei gorau, rydym wedi darparu rhaglen gref o weithgareddau sy'n ysbrydoli ac yn addysgu, law yn llaw â gwaith i ddatblygu cynlluniau sy'n ehangu cyrhaeddiad ein diwylliant llenyddol. Dyma rai enghreifftiau:

Plethu/Weave

- Fel ymateb artistig i'r sgysiau gwleidyddol-gymdeithasol am gydraddoldeb hiliol sy'n digwydd ar hyn o bryd, bu'r bardd **Marvin Thompson** yn cydweithio ag **Ed Myhill**, un o ddawnswyr Dawns Cenedlaethol Cymru, i greu ffilm barddoniaeth a dawns newydd, **Triptych**. Roedd hon yn un o wyth comisiwn ffilm newydd, yn pontio'r celfyddydau, a grëwyd drwy brosiect Plethu / Weave rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn 2020. Cafodd **'Triptych'** ei greu fel ymateb i'r plac yn Aberhonddu sy'n anrhydeddu'r masnachwr caethweision, y Capten Thomas Phillips. Ac yntau'n fardd o gefndir Jamaicaidd, ysgogwyd Marvin Thompson i **ysgrifennu cerdd am hiliaeth drefedigaethol a gwaddol hynny**. Mae Ed Myhill **wedi ailgymysgu'r gerdd ac mae'n defnyddio dawns**, delweddu o'r artistiaid a thirluniau Cymru fel trosiadau gwledol i gollfarnu erchyllterau gorffennol trefedigaethol Prydain.

Tir a Llên Cymreig

- Ffocws o bwys o dan y golofn hon yw sicrhau bod unigolion nad ydynt fel arfer yn ymwneud â'r diwylliant/byd llenyddol yng Nghymru yn gwneud hynny. Cawsom gyllid yn ddiweddar gan Clwstwr i ddechrau prosiect sy'n **cynnal ymchwil ac yn dadansoddi hyfywedd masnachol gemau fideo newydd a fyddai wedi'u seilio ar fythau a chwedlau Cymru**. Ar ddiwedd 2020, comisiynwyd **Strategic Research & Insight** i gynnal arolwg ymhlith dros 800 o chwaraewyr gemau fideo chwarae rôl sydd wedi'u seilio ar themâu ffantasi, a hynny yn y Deyrnas Unedig, yr Unol Daleithiau, yr Almaen a Japan. Bydd yr ymatebion yn fodd o ganfod a all **mythau a chwedlau Cymru fodloni diddordebau'r gynulleidfa hon**, ynghyd â rhoi gwybod sut mae'r chwaraewyr hyn yn ymwneud â'r straeon a'r llên sy'n sail i gemau fideo. Bydd y camau nesaf yn y prosiect yn cynnwys cyfarfod ag **Epic Games**, sy'n ddatblygwr ac yn gyhoeddwr gemau fideo a meddalwedd blaenllaw, ynghyd â datblygwyr llai o Gymru, academiâu a stiwdio sy'n arbenigo mewn datblygu gemau.

Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

	Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Cynnydd Presennol 1 Hydref– 31 Rhagfyr2020	Dull casglu data
Effaith Sefydliadol	Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru		Arolwg Hydredol 2019-22
Canlyniadau Sefydliadol	Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael: ▪ Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu ▪ Mwy o hunanhyder ▪ Rhagor o gyfleoedd gwaith ▪ Llai o bobl yn teimlo'n ynysig ▪ Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well ▪ Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd ▪ Gwell gallu i ddangos empathi ▪ Gwell sgiliau amlieithog	Mae'r Arolwg Hydredol dros dair blynedd wedi'i greu a'i anfon at sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid, sydd wedi'u contractio i'w gwblhau ddwywaith y flwyddyn, er mwyn inni gadw golwg ar ein heffaith a'n canlyniadau sefydliadol. Yn 2020/2021, dewiswyd tri chleient newydd i gymryd rhan yn yr Arolwg Hydredol, a byddwn yn ehangu'r sampl drwy ychwanegu tri chleient arall yn 2021/2022. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi'r dadansoddiad o'r Arolwg Hydredol. Yn y cyfamser, rydym yn dal mewn cyswllt â'r sampl presennol o gleientiaid wrth iddynt barhau i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru a sefydliadau eraill.	

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi cynyddu 1.2 pwynt canran o 8.2% yn 2016 i 9.4% erbyn 2021 (sy'n gyfwerth â 41,400 o bobl yn ychwanegol)	Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau yn 2020 yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2021.	Yn ôl adroddiad cryno Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2020, cymerodd 11.5% o oedolion ran mewn ysgrifennu creadigol yn 2019.	Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau
Mae o leiaf 110,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidf a yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 82,000 yn 19/20.	Yn y cyfnod uchod, mae 14,091 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau 'yn bersonol'. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymwneud â 242,392 o bobl drwy ein gweithgareddau digidol, gan gynnwys ein hadnoddau a'n gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, ar fideos, ac ar-lein.	Ers mis Ebrill, mae 321,290 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi ymwneud â'n gweithgareddau (yn cynnwys ffigurau digidol).	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 34% o'n cyfranogwyr creadigol yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed, o gymharu â tua 20% yn 19/20.	Oherwydd COVID-19, mae'r targed hwn wedi'i roi o'r neilltu dros dro . Mae nifer o'n gweithdai wedi'u gohirio ac rydym yn dal i ddatblygu a chyflwyno fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n holl gomisiynau digidol.	Fel ar y chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Mae o leiaf 450 cyfranogwr creadigol yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 518 yn 19/20.	Mae 165 o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn y cyfnod uchod.	Mae cyfanswm o 453 o gyfranogwyr creadigol wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd a gynigir o dan y golofn gweithgaredd datblygu i awduron.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Rydym yn darparu o leiaf 300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol ar gyfer egin awduron yn flynyddol, o gymharu â 293 yn 19/20.	Rydym wedi darparu 90 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron . Ym mis Hydref, penodwyd Kittie Belltree i ddarparu gweithgareddau fel rhan o brosiect Geiriau ar Gynfas mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru. Yn ogystal, cafodd Yasmin Begum y cyfle i gysgodi, gan wella'i gwybodaeth am gynnal gweithdai i unigolion sydd ag anableddau.	Mae 193 o egin awduron wedi cael cyfleoedd creadigol a phroffesiynol ers mis Ebrill 2020.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf 30,000 o ymweliadau unigryw i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol, mewn cymhariaeth â 35,000 yn 19/20.	Yn y cyfnod uchod, mae ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron wedi cael ei gweld yn unigryw 6,902 o weithiau, a 8,886 o weithiau i gyd.	Ers mis Ebrill, mae 24,889 o dudalennau wedi'u gweld ar y rhan o'r wefan sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu awduron.	Google analytics
Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o 80 awdur ifanc (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol, o gymharu â 140.	Mae cyfanswm o 58 o awduron ifanc wedi cael cefnogaeth barhaus ers mis Ebrill . Er enghraifft, cafodd 2 awdur ifanc o Gymru ar incwm isel gefnogaeth drwy Ysgoloriaeth Llenyddiaeth Cymru a Chyllid REACT i fynd i Encil Gaeaf Rhithwir Tŷ Newydd yn rhad ac am ddim. Mae'r ddau unigolyn wedi ymwneud â Tŷ Newydd yn y gorffennol, ac roedd un unigolyn, a oedd wedi colli'i swydd yn ddiweddar, yn cymryd rhan gyda'r nod o fireinio'i sgiliau cyflogadwyedd i allu achub ar gyfleoedd yn y dyfodol.	Mae cyfanswm o 84 o awduron ifanc wedi cael cefnogaeth barhaus ers mis Ebrill.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Mae o leiaf 200 awdur profiadol a 250 darn o waith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol, o gymharu a 250 a 244 yn 19/20.	Mae 57 o awduron profiadol a 198 gwaith llenyddol wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel ers mis Hydref. Yn sgil ein cyrsiau rhithwir peilot yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, bu amrywiaeth o diwtoriaid cyrsiau a darllenwyr gwadd yn darparu cynnwys cyffrous i awduron.	Bu cyfanswm o 172 o awduron profiadol a 323 gwaith llenyddol yn rhan o'r prosiectau proffil uchel yn ystod y cyfnod uchod.	Ein hadroddiad au gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar o leiaf 20 partneriaeth a phrosiect cyfnewid y tu allan i Gymru yn flynyddol, o gymharu â 21 yn 19/20.	Yn y cyfnod uchod, rydym wedi hwyluso neu gydweithio ar 5 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru . Bu ein Pennaeth Rhaglenni yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru yn ddiweddar fel rhan o'r Arddangosfa Llenyddiaeth Ryngwladol a drefnwyd gan y Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol yn Norwich.	I gyd, rydym wedi hwyluso neu gydweithio ar 12 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod uchod.	
Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf 35 comisiwn y flwyddyn yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill, o gymharu a 43 yn 19/20.	Mae 17 o awduron profiadol wedi cael eu comisiynu drwy ein hymyriadau yn y cyfnod uchod.	Mae cyfanswm o 69 o gomisiynau wedi'u rhoi i awduron profiadol hyd yma gan sefydliadau eraill o ganlyniad i'n hymyriadau ni.	
Mae o leiaf 24 egin awdur yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol, o gymharu â 54 yn 19/20.	Cymerodd 7 o egin awduron ran yn ein prosiectau proffil uchel , gan gynnwys nifer o artistiaid drwy brosiect Plethu/Weave a welwyd yn ddigidol 223,940 o weithiau i gyd ar blatfformau Llenyddiaeth Cymru a Dawns Cenedlaethol Cymru.	Mae cyfanswm o 24 o egin awduron wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Mae 70% o'n data o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog	Mae tua 75% o'r data o'n gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol yn cael eu storio yn ein porth monitro a gwerthuso canolog Mae staff cyflawni bellach yn rhoi manylion yr ystadegau ar gyfer eu gwaith pryd bynnag y byddant yn ymddangos yn 'bersonol' ar-lein, ynghyd â'u cyrhaeddiad digidol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi addasu ein modelau casglu data er mwyn iddynt gyd-fynd â'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru.	Fel ar y chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol
Mae 1 Adroddiad Blynyddol yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg	Rydym wedi gweithio gydag ymgynghorwr cyfathrebu, dylunydd a darlunydd i gynhyrchi Adroddiad Canol Tymor 2019/2020 a fydd yn cael ei gylchredeg ymhlith ein rhanddeiliad yn y flwyddyn newydd.	Fel ar y chwith, ac mae'r Adroddiad Blynyddol llawn wedi'i gyflwyno i'r cyrff perthnasol. Mae ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.	
Cynhyrchwyd 12 adroddiad gwerthuso misol a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol	Dyma'r trydydd adroddiad gwerthuso chwarterol yn 2020/2021. Rydym bellach wedi creu fformat syml er mwyn i'r Uwch Dîm Rheoli gael adroddiad cynnydd misol yn ystod 2020/2021.	Rydym wedi creu 3 adroddiad gwerthuso chwarterol yn y cyfnod uchod.	
Caiff 85% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad [RHEWYD 20/21]	Rydym wrthi'n diwygio ein system ar gyfer cyflwyno syniadau am brosiectau o ganlyniad i newidiadau i'n rhaglen yn sgil COVID-19. Mae staff wedi cael eu hannog i gynnig syniadau am brosiectau newydd i'r Uwch Dîm Rheoli, gyda'r nod o helpu awduron llawrydd a chymunedau yn ystod COVID-19.	Fel ar y chwith.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Adnoddau Dynol

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Mae 100% o'r staff wedi mynychu dau sesiwn hyfforddi ar draws timau	Mae 100% o'r staff wedi bod i 3 sesiwn hyfforddi i dimau amrywiol yn y cyfnod uchod. Darparwyd hyfforddiant polisi i'r tîm ym mis Hydref 2020 am Gynllun Gweithredu'r Gymraeg a Chynllun Gweithredu'r Amgylchedd, ill dau ar eu newydd wedd, a bu'r holl staff mewn sesiwn Cynllunio Creadigol ym mis Hydref.	Mae 100% o'r staff wedi bod i 3 sesiwn hyfforddiant i staff amrywiol ers mis Ebrill 2020, ac mae 15% wedi bod i sesiwn arall.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 2 aelod o staff wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau)	Mae 2 aelod o staff wrthi'n elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Mae ein Pennaeth Datblygu a'n Dirprwy Brif Weithredwr yn dal i elwa o fentora i ddatblygu ein cynnig masnachol, ac mae ein Rheolwr Cyfranogi Cymunedol wedi cael hyfforddiant mewn materion diogelwch ac iechyd meddwl i-act.	I gyd, mae 3 aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol.	
Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu o leiaf 7% [RHEWYD 20/21]	Mae'r arolwg o les y staff wedi'i drefnu ar gyfer Chwarter 4. Rydym yn blaenoriaethu lles y staff yn y cyfnod hwn ac yn rhannu adnoddau'n gyson i gefnogi'r tîm wrth i bobl weithio o gartref.	Fel ar y chwith.	Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad
Mae o leiaf 5% o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan 5% anableddau, ac mae 1 o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi)	Mae 17% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae gan 6% anableddau. Mae 4 o'r rhain mewn swyddi uwch.	Fel ar y chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf 7 gwirfoddolwr	Nid oes unrhyw wirfoddolwyr wedi gweithio gyda ni yn y cyfnod uchod.	Rydym wedi gweithio gyda 9 gwirfoddolwr yn y cyfnod uchod.	

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
2 gais grant Ymddiriedolaethau a Sefydliadau llwyddiannus ar gyfer cyllid tuag at waith cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw yn Nhŷ Newydd	Rydym yn aros i glywed gan 5 Ymddiriedolaeth a Sefydliad y cyflwynwyd ceisiadau iddynt am gyllid er mwyn gwneud gwaith cadwraeth yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd .	Fel ar y chwith.	Ein cyfrifon chwarterol a chofnod o waith codi arian
Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd wedi'i lansio, ac o leiaf 30 o Ffrindiau newydd yn ymuno [RHEWYD 20/21]	Oherwydd COVID-19, mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i ohirio am y tro.	Fel ar y chwith.	
Manylebau gwaith newydd wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr [RHEWYD 20/21]	Tra bo'r ganolfan ar gau oherwydd COVID-19, bydd oedi yn y gwaith.		
Adnewyddu 2 ystafell wely i safon uchel [RHEWYD 20/21]			
Mae o leiaf 85% o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd 90% y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol [RHEWYD 20/21]	Oherwydd COVID-19, mae'r gwaith i gasglu'r data hwn wedi'i roi o'r neilltu am y tro. Rydym wrthi'n cynllunio gweithgaredd gwerthuso byr, i'w gwblhau gan gyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn ein cyrsiau rhithwir.	Fel ar y chwith.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Llywodraethu ac Ymgynghori

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o o leiaf 120 unigolyn o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn	Rydym wedi gorffen paratoi ein Harolwg Rhanddeiliaid a byddwn yn ei rannu ag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid yn y flwyddyn newydd.	Fel ar y chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Cynnal cyfweiliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o o leiaf 18 Cyfaill Beirniadol o leiaf unwaith y flwyddyn	Rydym wedi gweithio ar restr newydd o Ffrindiau Beirniadol o gefndiroedd amrywiol er mwyn eu gwahodd i rannu eu safbwyntiau am ein sefydliad. Byddwn yn cysylltu â'r unigolion hyn yn y flwyddyn newydd.	Mae 2 gyfarfod â Ffrindiau Beirniadol wedi'u cynnal yn y cyfnod uchod.	
Cynnull 3 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli, 15 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli a 2 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff yn flynyddol	Mae Grŵp Ymgynghorol y Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod 1 waith a'r Uwch Dîm Rheoli wedi cynnal cyfarfodydd gweithredol 13 gwaith. Bu'r holl staff yn rhan o sesiwn Cynllunio Creadigol ym mis Hydref er mwyn cyfrannu at ein cyfeiriad strategol, gan ganfod bylchau a meysydd posibl i'w datblygu yn y sefydliad.	Cafodd 4 cyfarfod o Grŵp Cyngori'r Bwrdd Rheoli (Cyfarfodydd Bwrdd Argyfwng COVID-19) a 58 cyfarfod gweithredol o'r Uwch Dîm Rheoli eu cynnull. Mae 1 sesiwn cynllunio creadigol i staff amrywiol wedi'i chynnal hyd yma.	
Rhannu dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau	Rydym yn parhau i rannu dadansoddiadau o adborth rhanddeiliaid yn ein hadroddiadau gwerthuso chwarterol, ac rydym yn cyfeirio at hyn yn Adroddiad y Prif Weithredwr.	Fel ar y chwith.	Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Hwyluso'r Sector

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Peidio darparu mwy na 10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn	Rydym wedi gohirio'r rhan fwyaf o'n prosiectau gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. Mae rhaglen newydd, wedi'i diweddaru, o weithgareddau yn cael ei datblygu ar gyfer 21/22. Ar hyn o bryd, mae gennym 14 o gyllidebau prosiectau gweithgareddau ar waith, ac mae 9 o'r rhain yn brosiectau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol .	Fel ar y chwith.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Cefnogi o leiaf 30 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol, a chefnogi 70 arall â chefnogaeth mewn nawdd cyffredinol	Rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i 14 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid , ac wedi rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 12 prosiect . Er enghraifft, rydym wrthi'n cefnogi Artworks Cymru i ddarparu Llwybr Hyfforddi Artistiaid. Yn ogystal â hyn, rydym yn rhoi cefnogaeth benodol i'r artist clare e. potter drwy broses lle bydd yn mentora 3 egin awdur.	I gyd, rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i 21 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid , ac wedi rhoi cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 28 prosiect arall .	
Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i o leiaf 700 o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn flynyddol	Rydym wedi darparu 171 awr o gefnogaeth a chefnogaeth nad yw'n ariannol i 93 o unigolion, grwpiau a sefydliadau . Er enghraifft, cefnogwyd myfyriwr Go Wales gan roi cyngor gyrfa a gwybodaeth am y sector llenyddiaeth a chyhoeddi, a chefnogaeth weinyddol i grŵp Cynghrair Ddiwylliannol Cymru.	Rydym wedi rhoi cyllid a/neu gefnogaeth nad yw'n ariannol i 318 o unigolion, grwpiau a sefydliadau ers mis Ebrill 2020.	
Rydym wedi ysgogi o leiaf 10 prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol mewn meysydd lle mae angen	Rydym wedi ysgogi 3 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain , mewn ardaloedd lle mae angen.	I gyd, mae 8 prosiect llenyddol newydd wedi'u hysgogi mewn ardaloedd ble mae angen.	

Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

Ymwneud â'n Sector

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021	Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr	Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2020	Y dull o gasglu data
Gweithredu fel arweinydd y sector a hwylusydd i lenyddiaeth yng Nghymru, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.	Mae Llenyddiaeth Cymru yn parhau i weithredu fel arweinydd yn y sector a hwylusydd i lenyddiaeth yng Nghymru a'r tu hwnt. Yn ogystal â'n cynnig hwyluso rheolaidd, mae ein haelodau o staff wedi cynrychioli'r sefydliad ar amryw o dasgluoedd sydd wedi'u sefydlu i helpu i adfer gwahanol elfennau o'r sectorau celfyddydol a diwylliannol yn ystod argyfwng COVID-19. Mae ein staff yn dal i wirfoddoli ar sail diddordebau, sgiliau a phrofiad. Yn fwy nag erioed, rydym nawr yn cyfrannu at sgysiau allweddol sy'n digwydd yng Nghymru a'r tu hwnt, ac mae gennym y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain.	Fel ar y chwith.	Gwaith Hwyluso'r Sefydliad yn y Sector

Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu

Dysgu Sefydliadol

1 Hydref – 31 Rhagfyr 2020

- Ers dechrau pandemig COVID-19, rydym wedi sylweddoli'n gynyddol werth, pwysigrwydd a grym darparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar ein **tair Blaenoriaeth Dactegol**. Byddwn yn dechrau eleni gyda dealltwriaeth well o sut i integreiddio'r themâu hyn yn ein Cynllun Gweithgareddau er mwyn cefnogi sefydliadau yn y sector a'r tu hwnt iddo. Bydd y dysgu hwn yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu Cynllun Strategol 2022-2025.
- Cafodd **Adroddiad Canol Tymor 2019/2020** ei greu'n llwyddiannus, ac mae'n edrych yn ôl ar ein cynnydd ers dechrau Cynllun Strategol 2019-2022, yn ogystal â chyflwyno ein haddewidion i'r sector, i awduron ac i'n cynulleidfaoedd yn y dyfodol. Mae'r peilot hwn wedi ein galluogi i ganfod y ffyrdd gorau o ddarparu'r math yma o ddogfen, gan roi dull y gellir ei ddefnyddio y flwyddyn nesaf ar ddiwedd yr ymgyrch dair blynedd. Gwers o bwys i'w dysgu oedd lleihau nifer y golygyddion a fyddai'n rhan o'r gwaith.
- Fel sefydliad rydym wedi parhau i gysylltu â'n cydweithwyr drwy'r sector, a chreu **cysylltiadau dyfnach â sefydliadau diwylliannol a chreadigol eraill**. Mae'r ysbryd cydweithredol hwn wedi bod yn hynod werthfawr gan ein bod wedi ymateb gyda'n gilydd i anghenion brys gweithwyr llawrydd, er enghraifft, ac wedi helpu i wneud argymhellion i gyllidwyr am faterion pwysig fel y Contract Diwylliannol, ynghyd â bod yn rhan o grŵp ehangach sy'n datblygu Maniffesto Diwylliannol cyn Etholiadau'r Senedd yn 2021.

Prosiectau Gweithredol

1 Hydref – 31 Rhagfyr 2020

- Wrth inni ddechrau ar ail gam cyflawni ein Cynllun Strategol 2019-2022, roeddem yn cydnabod bod angen inni barhau i ymwneud ag amrywiaeth o'n **rhanddeiliaid** allweddol, a chael adborth ganddynt. Gan ddechrau yn y cyfnod uchod a pharhau yn y flwyddyn newydd, rydym yn bwriadu diweddarau ein **Ffrindiau Beirniadol**, rhannu ein cynnydd â rhanddeiliaid a chyllidwyr proffil uchel, a lansio ein **Harolwg Rhanddeiliaid** blynyddol er mwyn cael gwybodaeth i'n helpu i ddatblygu ein cyfeiriad strategol.
- O ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar ein Cynllun Gweithgareddau, gwelsom fod angen edrych eto ar ein **system ar gyfer Cyflwyno Syniadau am Brosiectau**. Er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi'r sector ehangach drwy'r cyfnod ansicr hwn, a thra bo nifer o'n prosiectau wedi'u gohirio dros dro, byddwn yn annog y staff i gyflwyno syniadau am brosiectau posibl sy'n cyd-fynd â'n hanghenion strategol yn fwy ffurfiol i'r Uwch Dîm Rheoli. Mae'r broses newydd yn gofyn iddynt graffu'n fanylach ar sut mae prosiectau'n cyd-fynd â'r strategaeth ac â'r angen/galw.
- Er mwyn parhau â'r gwaith pwysig o wella **strwythurau staffio mewnol** y sefydliad, rydym wedi dewis dau faes gwaith lle bydd yr arbenigwr adnoddau dynol, Lesley Rossiter, yn cefnogi ein datblygiad. Yn y flwyddyn newydd, bydd yr Uwch Dîm Rheoli a staff yn ehangach yn mynychu sesiynau hyfforddiant ar 'Reoli Da' a 'Pherfformiad Da' i sicrhau nad yw ein cynnydd yn dirywio yn yr amgylchiadau presennol. Bydd Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol newydd yn cael ei ddatblygu, ynghyd â grwpiau gwaith i rannu'r broses o wneud penderfyniadau ymhellach..

Gwerthuso

Gwersi i'w dysgu o'n Gweithgareddau

Gweithgareddau	Gwersi i'w Dysgu 1 Hydref– 31 Rhagfyr2020	Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol
Tir a Llên Cymreig	Mae'r ymchwil eilaidd sydd wedi'i gynnal hyd yma ar gyfer prosiect Tir a Llên Cymreig wedi canfod bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng chwedlau Cymreig a diddordebau cynulleidfaoedd sy'n hoffi gemau fideo chwarae rôl, a'r rheini wedi'u seilio ar themâu ffantasi. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd nad oes bron i neb yn cysylltu'r straeon hyn â Chymru mewn gemau. Bydd dadansoddiad o'r ymchwil craidd a geir yn Chwarter 4 yn gwella ein gwybodaeth am y farchnad a'r diwydiant.	Rhaid inni barhau i weithio mewn cyfryngau newydd sy'n rhoi cyfleoedd i Llenyddiaeth Cymru gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach i gryfhau enw da Diwylliant Llenyddol Cymru.
Y Rhaglen Datblygu Proffesiynol	Cawsom fymryn o dan 60 o geisiadau ar gyfer y Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw ym mis Rhagfyr. O ganlyniad i nifer uchel y ceisiadau ac ansawdd rhagorol yr ymgeiswyr, bu'n rhaid inni aildrefnu'r dyddiad dethol gwreiddiol er mwyn rhoi mwy o amser i'r panel wneud ei benderfyniadau.	Mae angen inni sicrhau bod digon o amser i baneli gnoi cil, a phenderfynwyd ar ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.
Plethu/Weave	Mewn partneriaeth â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, clustnodwyd arian yng nghyllideb prosiect Plethu/Weave ar gyfer talu am farchnata digidol i gynyddu cyrhaeddiad ac ehangder y prosiect o ran gwyllo ac ymwneud â fideos. Er bod nifer o'r fideos a gafodd eu creu yn rhoi sylw i faterion gwleidyddol-cymdeithasol drwy eu cynnyrch artistig, ni wnaeth Facebook ganiatáu i un o'r darnau gael ei hyrwyddo mewn neges y talwyd amdani. Roedd y prosiect hwn yn benodol yn crybwyll Black Lives Matter, ac fe'i gwaharddwyd gan fod y neges yn wleidyddol neu'n gymdeithasol. Golygodd hyn y bod y nifer a wylodd y fideo hwn ychydig yn is na'r gweddill.	Wrth dalu i bostio hysbysebion yn y dyfodol, mae angen inni gynnal ymchwil er mwyn bod yn ymwybodol o'r canllawiau presennol am sensoriaeth ar-lein.